

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Bioamrywiaeth, Cydnerthedd Ecosystemau a Chynaliadwyedd Adroddiad Blynyddol 2020/21

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........................................ 3
**Cefndir Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau** ............. 4
**Amdanom ni** ........................................ 5
**Adroddiad gweithredu** ........................................ 6
**Adrodd a chynllunio** ........................................ 12
**Casgliad** ........................................ 12

# Cyflwyniad

Mae gwarchod yr amgylchedd yn parhau yn flaenoriaeth allweddol. Lle y bo'n bosibl, rydym yn gweithio tuag at leihau effaith y swyddfa ar yr amgylchedd ac yn ceisio gweithredu mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar ein perfformiad a gweithredoedd yn ystod 2020/21 o dan y ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hefyd yn amlinellu ein cynnydd yn y meysydd lle mae angen gwella a adnabuwyd gennym yn 2019/20:

- lleihau gwastraff cyfrinachol a gwastraff papur ymhellach
- cynyddu'r gyfran o wastraff sy'n cael ei hailgylchu (36% yn 2019/20)
- gwella sut ydym yn monitro allyriadau a gynhyrchir gan deithio busnes a chymudo staff
- adolygu cyflenwyr a threfniadau caffael presennol
- gwella ymwybyddiaeth y staff ynglŷn â ffyrdd o leihau eu hôl-troed carbon.

Mae Covid-19 wedi effeithio ar y ffordd yr ydym y gweithio a sut yr ydym yn defnyddio ein cyfleusterau. Yn ystod 2020/21, bu bron pob un o'n staff yn gweithio gartref, gyda dim ond nifer fach o staff yn y swyddfa i gyflawni dyletswyddau hanfodol o'r swyddfa. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, roedd y staff sy'n weddill yn gallu gweithio yn y swyddfa am resymau llesiant, i gyflawni tasgau penodol neu le'r oedd materion TG dros dro yn effeithio ar gynhyrchiant gartref.

Roedd y newidiadau hyn i batrymau gwaith yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn caledwedd a meddalwedd TG i alluogi pobl i weithio gartref. O ganlyniad, rydym wedi gweld gostyngiad cadarnhaol yn ein hallbynnau gwastraff yn y swyddfa, y defnydd o drydan a milltiroedd cymudo, sy'n parhau i mewn i 2021/22. Rydym yn bwriadu symud i fodel gweithio cyfunol yn y dyfodol, gyda'r mwyafrif o staff yn gweithio'n rhannol yn y swyddfa ac yn rhannol gartref.

# Cefndir Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd fanylach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Mae dyletswydd adran 6 yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus ‘geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag sy’n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn gywir, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd yr ecosystemau’.

Er mwyn cydymffurfio â’r ddyletswydd, dylai awdurdodau cyhoeddus ymwreiddio’r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau i mewn i’w meddwl cynnar a’u cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal ag i’w gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae OGCC yn cael ei gynnwys o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus o dan delerau’r Ddeddf ac mae gofyn iddo gyhoeddi adroddiad ynglŷn â sut y cydymffurfiodd ef â dyletswydd adran 6.

Er nad yw OGCC yn destun i ddyletswyddau llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn cefnogi gweledigaeth y Ddeddf yn llawn er mwyn creu Cymru fwy cynaliadwy.



# Amdanom ni

## Ein rôl

Mae gan yr Ombwdsmon dair rôl benodol.  Y cyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad; y trydydd yw pennu safonau ymdrin â chwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus.   Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y Llywodraeth ac mae'r gwasanaeth a ddarperir yn rhad ac am ddim.

## Ein hadeilad

Rydym yn parhau i feddiannu un swyddfa ym Mhencoed, ger Pen-y-bont ar Ogwr.  Yn wreiddiol, cymerasom y brydles ar gyfer llawr gwaelod yr adeilad yn 2005 ac ers hynny, rydym wedi ymestyn i feddiannu rhannau o'r llawr cyntaf a'r ail lawr, er mwyn darparu lle i dros 70 o staff ac ymwelwyr mewn swyddfa sydd yn bennaf yn un cynllun agored.

| Adeilad | Adeiladwyd | Nifer o Loriau | Cyfanswm Arwynebedd Llawr y gellir ei ddefnyddio (tr2) | Math o Wres |
|---|---|---|---|---|
| 1 Ffordd yr Hen Gae | 2004 | 3 | 16,460 | Unedau Trin Aer |

Trydan yw'r unig gyflenwad ynni sy'n cael ei ddefnyddio ac mae hwn yn darparu golau a darparu gwres/oerni yn ogystal â phweru cyfarpar arferol y swyddfa.

# Adroddiad gweithredu

## Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth drwy wneud penderfyniadau ar bob lefel

Mae sylw i gynaliadwyedd wedi cael ei integreiddio ym mholisïau a chynlluniau strategol allweddol OGCC.  Er enghraifft:

- Mae Cynllun Corfforaethol OGCC 2019/20-2021/22 yn cynnwys ymrwymiad i 'ymwreiddio'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy yn y modd yr ydym yn rhedeg ein busnes, a mwyhau ein cyfraniad i gyflawni'r saith nod llesiant yng Nghymru'.  Mae'r Cynllun hefyd yn nodi Targedau Perfformiad Allweddol mewn perthynas â gwastraff a thrydan.
- Mae Polisi Caffael OGCC yn dweud 'y dylai'r holl gaffael ystyried materion cynaliadwyedd'.

Mae OGCC yn ceisio sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i gyfrannu tuag at ymarfer cynaliadwy'r swyddfa.  Yn ystod 2017/18, cyfranogodd staff mewn gweithdy ar gynaliadwyedd a nodwyd nifer o fesurau eraill er mwyn gwella rheolaeth y defnydd o ynni.  Rhoddwyd sylw i'r rhain.

Gyda chyfyngiadau COVID-19 ar waith yn ystod 2020/21, bu'n rhaid i ni addasu'r ffordd y mae staff yn gweithio ac yn cyfathrebu.  A chofio hyn, rydym yn ymwybodol o'r angen i hyrwyddo a pharhau i weithio mewn ffyrdd sy'n lleihau olion traed carbon staff.  Un cyfrannwr arwyddocaol yw cymudo staff.  Fel y nodir uchod, bydd ein trefniadau gweithio cyfunol yn y dyfodol yn cynnwys elfennau o weithio gartref, i gynnal rhai o fanteision llai o gymudo.

Er mis Ebrill 2020, cynhelir cyfarfodydd gyda staff a phartïon allanol bron yn gyfan gwbl trwy fideo (MS Teams neu Zoom).  Mae'r rhain yn gyfleusterau a all nawr barhau i'r dyfodol a disgwylir iddynt leihau teithio busnes yn y dyfodol o lefelau cyn-bandemig.

Rydym wedi ymuno â chynllun Beicio i'r Gwaith a fydd ar waith yn ystod 2021, i baratoi ar gyfer staff sy'n dychwelyd i weithio yn y swyddfa pan fydd hyn yn briodol.

## Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Gan fod ein gweithrediadau yn rhai gweinyddol a swyddfa neu gartref yn bennaf, mae'r rhan fwyaf o'n heffeithiau ar fio-amrywiaeth yn anuniongyrchol eu natur, yn deillio trwy ein cadwyn gyflenwi.

Mae ein hadeilad swyddfa yn cael ei brydlesu, sy'n cyfyngu ar ein gallu i wneud newidiadau i effeithlonrwydd ynni'r adeilad. O ganlyniad, mae ein gwaith i sicrhau a gwella cynaliadwyedd a lleihau unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd wedi canolbwyntio ar leihau gwastraff, y defnydd o ynni ac allyriadau.

Effeithiwyd yn sylweddol ar ein perfformiad yn ystod 2020/21 gan y trefniadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i Covid-19. Yn benodol, mae'r symud i weithio gartref wedi lleihau ein gwastraff swyddfa, y defnydd o drydan a'n hallyriadau. Er mai dros dro yw'r amgylchiadau sy'n ysgogi'r gostyngiadau hyn, byddwn yn gweithio i leihau cynyddiadau i'r eithaf wrth inni ddychwelyd i weithio yn y swyddfa a byddwn yn ceisio cadw lefelau gwastraff, defnydd ynni ac allyriadau yn is na lefelau 2019/20.

## Gwastraff

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau i leihau ein gwastraff yn sylweddol. Gan adeiladu ar berfformiad y llynedd, mae ein holl ffeiliau achos bellach yn cael eu hanfon at ein cynghorwyr proffesiynol ar ffurf electronig (yn hytrach na chopi caled). Gwnaethom hefyd fuddsoddi mewn meddalwedd newydd (Objective Connect) i sicrhau y gellir anfon ffeiliau mawr yn ddiogel ar-lein.

Ar y cyfan, ers mis Ebrill 2020, bu gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm ein gwastraff cyfrinachol. Bu hyn yn bennaf oherwydd Covid-19. Gan inni gael ein hatal rhag defnyddio'r swyddfa yn llawn o fis Mawrth 2020, nid oedd llawer o'r gwastraff cyfrinachol arferol o ddydd i ddydd yn cael ei gynhyrchu. Rydym wedi parhau i weithio fel sefydliad sy'n ysgafn ar bapur, gyda staff yn gweithio o gofnodion electronig yn unig wrth weithio gartref. Mae casglu gwastraff cyfrinachol o'r swyddfa yn cynnwys trefnu i ddinistrio ffeiliau achos copi caled hŷn, yn unol â pholisi cadw OGCC.

Hefyd, gan fod Covid-19 wedi cyfyngu ar ein defnydd o'r swyddfa, mae maint y gwastraff a'r ailgylchu a gynhyrchir wedi lleihau'n sylweddol.

| Math o Wastraff | Ebrill 19 - Mawrth 20 | Ebrill 20 - Mawrth 21 | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Gwastraff Cyfrinachol** | 8,650 kgs | 1,480 kgs | Gostyngiad o 83% |
| **Ailgylchu Cymysg** | 2,346 kgs | 1,266 kgs | Gostyngiad o 46% |
| **Gwastraff Cyffredinol** | 16,000 kgs | 1,242 kgs | Gostyngiad o 92% |
| **CYFANSWM** | **26,996 kgs** | **3,988 kgs** | **Gostyngiad cyffredinol o 85%** |

Dengys ffigurau gwastraff ac ailgylchu ers Ebrill 2020 y bu modd ailgylchu 69% o'r gwastraff a gynhyrchwyd gan OGCC.  Bu modd osgoi defnyddio safleoedd tirlenwi trwy fynd â'r gwastraff a oedd yn weddill i safle llosgi, lle mae'r gwastraff yn cael ei droi'n stêm a'i brosesu trwy waith cyd-gynhyrchu, sy'n trosi'r stêm yn drydan a gwres.  Mae'r trydan wedyn yn cael ei fwydo i'r grid cenedlaethol ac mae'r gwres sydd ar ôl yn cael ei fwydo i gyfnewidydd gwres er mwyn darparu gwres a dyˆr poeth i gartrefi lleol.

Wrth inni ddychwelyd i ryw lefel o weithio yn rheolaidd yn y swyddfa, mae'n anochel y bydd cynnydd yn y gwastraff a gynhyrchir gennym, ond byddwn yn gweithio i leihau'r cynydd hwnnw i'r eithaf.

## Trydan

Yn yr un modd â gwastraff, gostyngodd ein defnydd o drydan yn sylweddol hefyd o'i gymharu â'r llynedd.  Byddwn yn gweithio i leihau cynnydd yn y defnydd o drydan yn y dyfodol wrth inni ddychwelyd i ryw fath o waith swyddfa.

| Defnydd Trydan (kWh) | | Gostyngiad |
|---|---|---|
| **2019/20** | **2020/21** | |
| 104,521 | 71,668 | -31% |

## Allyriadau

Nodwyd gennym yn ein Hadroddiad Blynyddol 2019/20 fod mwy o'n staff, yn ystod y flwyddyn, wedi dechrau gweithio gartref fel rhan o'r wythnos waith arferol. Fodd bynnag, cafodd cyfyngiadau symud Covid-19 a'r cyfyngiadau teithio a osodwyd ym mis Mawrth 2020 effaith enfawr ar yr allyriadau a gynhyrchir gan deithio busnes a chymudo staff. Wrth edrych ar ffigyrau cymharol a'r effaith y mae gweithio gartref wedi'i chael, mae'n anodd mesur yr arbedion, oherwydd gallai allyriadau cartrefi fod wedi cynyddu ond nid gwaith OGCC fydd yn achosi hyn i gyd.

| | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|
| **Nifer y staff (rhan amser / llawn amser)** | 72 (21 Rhan Amser / 51 Llawn Amser) | 72 (20 Rhan Amser /52 Llawn Amser) |
| **Nifer y staff yn Gweithio Gartref** | 11 | 72 |
| **Nifer y diwrnodiau Gweithio Gartref yr wythnos arferol** | 17 | 308 |
| **Milltiroedd cymudo cyfartalog a arbedwyd bob dydd*** | 81.27 | 2,281 |
| **Cilogramau cyfartalog o $CO_2$ mewn allyriadau a osgowyd** | 9,367 | 182,309 |

Er bod Covid-19 yn amlwg wedi cael effaith sylweddol ar ein perfformiad allyriadau yn y tymor byr, yn y tymor hwy yr ydym yn debygol o weld cynnydd o ran gweithio gartref yn fwy rheolaidd a pharhaol.

Awgryma ymchwil gan yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol fod gostyngiad cadarnhaol mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gwaith, lle mae staff yn byw dros 6 cilomedrau o'r swyddfa ac yn teithio mewn car. Fodd bynnag, gallai'r gwrthwyneb i hyn fod yn wir i'r sawl sy'n byw yn agosach at y swyddfa neu sy'n teithio gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus neu 'deithio egnïol' i gyrraedd y swyddfa. Fel y cyfryw, bwriadwn adolygu'r ffordd yr ydym yn mesur ôl-troed carbon ein gweithrediadau, wrth i'r symudiad tuag at ffordd fwy hyblyg o weithio ddod yn barhaol.

Yn ystod cyfyngiadau COVID-19, rydym wedi defnyddio'r we i brynu llawer o'n nwyddau a gwasanaethau. Rydym wedi trefnu i eitemau gael eu dosbarthu yn uniongyrchol i gartrefi staff yn hytrach nag i'r swyddfa ac yna eu hanfon at unigolion.

Mae'r angen i ymateb yn gyflym i brynu ar-lein yn sgil y pandemig wedi golygu y cafodd ein hadolygiad arfaethedig o gaffael ei ohirio.  Bellach, bydd angen i'r adolygiad ystyried y newidiadau i arferion gwaith a'r cynnydd mewn gweithio gartref.

## Sefydlu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer cyflawni

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwelliant a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol gyfrifoldeb dros berfformiad OGCC ynglŷn â chynaliadwyedd.   Mae Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn ymgymryd ag adolygiadau mewnol o berfformiad cynaliadwyedd OGCC bob dwy flynedd.   Mae canfyddiadau'r broses yn cael eu cyfathrebu i Dîm Rheoli OGCC ac maen nhw'n darparu gwybodaeth tuag at gynllunio strategol yr Ombwdsmon yn ogystal â'r adroddiad blynyddol ynglŷn â chynaliadwyedd.



Tra bod y rhan fwyaf o waith OGCC ar gynaliadwyedd yn cael ei gyflawni drwy bolisïau, gweithdrefnau a chamau gweithredu mewnol, mae'r Ombwdsmon hefyd yn ceisio cefnogi'r amgylchedd drwy bartneru â sefydliadau allanol. Er enghraifft, ym mis Hydref 2019, cyfranogodd staff OGCC mewn diwrnod gwirfoddoli yng Nghanolfan Arfordir Treftadaeth Morgannwg, ym Mharc Dwnrhefn. Roedd gweithgareddau yn ystod y diwrnod yn cynnwys casglu ysbwriel a phlastig yn ogystal â chynnal a chadw glaswelltiroedd y Ganolfan Arfordir.

Mae cyfyngiadau Covid wedi effeithio ar gynlluniau ar gyfer gwirfoddoli pellach, ond rydym yn bwriadu ailddechrau hyn pan fo hynny'n bosibl. Yn y cyfamser, rydym hefyd yn chwilio am ffyrdd eraill y gallwn gefnogi bio-amrywiaeth, megis defnyddio estyniadau porwr 'plannu-coeden'.

## Adrodd a chynllunio

Rydym yn parhau i fonitro ac adrodd ynglŷn â pherfformiad ar gynaliadwyedd bob 6 mis.  Mewn cydymffurfiaeth â’r gofynion o dan adran 6, isadran (6) o Ddeddf yr Amgylchedd 2016, rydym yn nodi ar yr un pryd unrhyw feysydd ar gyfer gwella:

- Adolygu ein methodoleg ar gyfer mesur ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr i gynnwys allyriadau o weithio gartref
- Gweithio i gyfyngu ar y cynnydd mewn gwastraff swyddfa a gynhyrchir a'r ynni a ddefnyddir, wrth inni ddychwelyd at ryw fath o weithio yn y swyddfa
- Adolygu effaith Covid ar ein trefniadau cyflenwi a chaffael
- Annog staff i ystyried ffyrdd y gallant leihau eu heffaith ar yr amgylchedd
- Gweithio â’r Grŵp Llesiant i ystyried gweithgareddau gwirfoddoli sy’n cefnogi’r amgylchedd
- Ystyried defnyddio cynlluniau ‘plannu-coed’ megis estyniadau chwilotwr gyda’n porwyr.

## Casgliad

Roedd 2020/21 yn flwyddyn anghyffredin ac mae pandemig Covid wedi cael effeithiau negyddol enfawr ledled Cymru.  Mae’n anochel y daw canlyniadau tymor hwy yn sgil y pandemig, gan gynnwys yn y ffordd yr ydym yn gweithio.  Bu rhai agweddau cadarnhaol ar weithio o dan gyfyngiadau Covid, ac edrychwn ymlaen at ddyfodol lle gallwn gynnal rhai o’r gostyngiadau mewn gwastraff, allyriadau a defnydd ynni wrth inni symud i’n trefniadau gweithio newydd a’n ‘normal newydd’.